PHI | Public Health Institute

LIVERPOOL JOHN MOORES UNIVERSITY

Uned **Atal** Trais
Violence **Prevention** Unit

Pecyn Cymorth Gwerthuso Atal Trais

Rhagfyr 2020

Diolchiadau

Cyfranwyr

Rydym yn ddiolchgar i fynychwyr cynhadledd Uned Atal Trais Cymru (VPU) (Mawrth 2020) a'r Gweithdy Gwerthuso (Tachwedd 2020) a rannodd eu mewnwelediad amhrisiadwy i natur ac ehangder gweithgarwch atal trais ledled Cymru, allbynnau gweithgarwch o'r fath, a'r effeithiau ar unigolion, teuluoedd, cymunedau a'r system ehangach. Darparodd y wybodaeth hon sylfaen ar gyfer datblygu Strategaeth VPU Cymru a Theori Newid, ac yn dilyn hynny y Pecyn Cymorth Gwerthuso hwn. Hoffem ddiolch i Dan Jones, Gemma Woolfe, Bryony Parry a Jon Drake am eu mewnbwn i ddyluniad y pecyn cymorth[1], a Jane Leaman, yr Athro Jonathan Shepherd a Stan Gilmour am adolygiadau cymheiriaid allanol.

Paratoi ac awduriaeth

Zara Quigg, Hannah Timpson, Nadia Butler, Sefydliad Iechyd y Cyhoedd[2] Prifysgol John Moores Lerpwl (LJMU)
Annemarie Newbury, Emma Barton, Lara Snowdon, Uned Atal Trais Cymru[3]

Dyfyniad awgrymedig: Quigg Z, Timpson H, Newbury A, Butler N, Barton E, Snowdon L (2020). Pecyn Cymorth Gwerthuso Uned Atal Trais Cymru. Lerpwl/Caerdydd; Sefydliad Iechyd y Cyhoedd, Prifysgol John Moores Lerpwl/Uned Atal Trais Cymru.

Diweddariadau'r pecyn cymorth

Bydd y pecyn cymorth hwn yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru yn ysbeidiol gan y VPU i sicrhau ei fod yn diwallu anghenion partneriaid ledled Cymru. Mae'r fersiwn ddiweddaraf o'r pecyn cymorth ar gael ar wefan VPU Cymru (www.violencepreventionwales.co.uk). Rydym yn croesawu adborth ar y pecyn cymorth, ac yn awyddus i glywed sut y caiff ei ddefnyddio mewn cymunedau ac ar draws ymyriadau. Rhowch adborth yn uniongyrchol i'r VPU trwy phw.violencepreventionunit@wales.nhs.uk.

---

[1] Mae'r pecyn cymorth hwn yn seiliedig ar ddull y Fframwaith Gwerthuso Safonol a ddatblygwyd gan Roberts et al (1) i werthuso ymyriadau gordewdra, sydd wedi'i addasu ers hynny ar gyfer nifer o raglenni iechyd cyhoeddus (ee iechyd rhywiol [2]; rhaglen Diogel ac Iach y Gwasanaeth Tân [3]), a chanllawiau gwerthuso eraill (y cyfeirir atynt drwyddi draw).

[2] Canolfan Gydweithredu Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer Atal Trais, Sefydliad Iechyd y Cyhoedd Prifysgol John Moores Lerpwl (LJMU)

[3] Canolfan Gydweithredu Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant, Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Cynnwys

1. Cyflwyniad 3
   1.1 Ynglŷn â'r pecyn cymorth 3
   1.2 Ar gyfer pwy mae'r pecyn cymorth 3
   1.3 Yr hyn nad yw'r pecyn cymorth hwn yn ei wneud 4
2. Cyflwyniad i werthuso 6
   2.1 Beth yw gwerthuso a pham ei fod yn bwysig 6
   2.2 Mathau o werthusiad 6
   2.3 Pryd i werthuso 7
3. Cynllunio a gweithredu gwerthusiad 9
   3.1. Datblygu dealltwriaeth gynhwysfawr o'r rhaglen 9
   3.2. Datblygu amcanion gwerthuso 10
   3.3. Datblygu cynllun gwerthuso 12
   3.4 Casglu a dadansoddi data 17
   3.5 Adrodd a lledaenu 18
   3.6 Rôl tystiolaeth werthuso wrth atal trais ledled Cymru 20
4. Rhestr wirio ar gyfer cynllunio gwerthusiad 21
   4.1 Datblygu dealltwriaeth gynhwysfawr o'r ymyrraeth 21
   4.2 Asesu ymarferoldeb gwerthusiad a diffinio'r ffocws 22
   4.3 Casglu, dadansoddi, adrodd a lledaenu data 23
   4.4 Templed o fodel rhesymeg 24
5. Geirfa 25
6. Cyfeiriadau 26
7. Atodiadau 27
   7.1 Dolenni i adnoddau ychwanegol 27
   7.2 Trosolwg o wahanol fathau o werthusiad 28
   7.3 Astudiaeth achos o werthusiad proses a chanlyniadau (ymyrraeth ffuglennol) 33
   7.4 Astudiaeth achos o werthusiad systemau 35

1. Cyflwyniad

Mae trais yn cael ei ystyried yn rhy aml fel rhan anochel o fywyd dynol; fel digwyddiadau yr ymatebir iddynt yn hytrach na'u hatal. Mae dull iechyd cyhoeddus yn herio'r syniad hwn ac yn dangos y gellir rhagweld ac atal trais fel unrhyw broblem iechyd arall. Trwy ddull aml-sector, system gyfan sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac yn cael ei arwain gan ddata, mae Uned Atal Trais Cymru (VPU) a'i phartneriaid yn ceisio atal trais cyn iddo ddigwydd, ac ymateb yn dosturiol ac yn effeithiol pan fydd yn digwydd, i atal y cylch trais rhag ailadrodd ei hun. Mae VPU Cymru yn bartneriaeth o bobl angerddol sy'n gweithio gyda'i gilydd i atal trais ledled Cymru trwy ddull iechyd cyhoeddus.

I wneud hyn, rhaid inni astudio ysgogwyr trais, er mwyn deall pam mae trais yn effeithio ar rai cymunedau ac unigolion yn fwy nag eraill, a beth sy'n gwneud rhai yn fwy cydnerth i drais. Trwy'r wybodaeth hon, gellir datblygu a gweithredu rhaglenni, yn seiliedig ar dystiolaeth wyddonol, sy'n gweithio'n gyffredinol ac ymhlith cymunedau wedi'u targedu i atal trais. Gall tystiolaeth bresennol ar yr hyn sy'n gweithio i atal trais helpu i lywio datblygiad a gweithrediad rhaglenni atal. Pan fydd ymyriadau newydd yn cael eu datblygu a'u profi, neu pan fydd ymyriadau presennol yn cael eu haddasu i leoliadau newydd neu grwpiau poblogaeth, mae'n hanfodol gwerthuso'r rhaglenni hyn cyn eu cynyddu. Bydd monitro effeithiau rhaglenni dros amser yn sicrhau bod adnoddau'n cael eu buddsoddi mewn rhaglenni sy'n gweithio i Gymru, bod canlyniadau anfwriadol a allai fod yn niweidiol yn cael eu hatal, a bod rhaglenni'n cael eu gweithredu gan ystyried y cyd-destun lleol.

1.1 Ynglŷn â'r pecyn cymorth

Nod y pecyn cymorth hwn yw cefnogi partneriaid i ystyried ac ymgorffori gwerthuso wrth ddylunio a darparu rhaglenni, ymyriadau neu wasanaethau sy'n anelu at atal ac ymateb i drais, gan gynnwys y rhai sy'n mynd i'r afael â ffactorau risg sylfaenol neu'n hyrwyddo ffactorau sy'n amddiffyn rhag trais. Mae'n darparu arweiniad ar:

- Yr hyn yw gwerthuso, pam ei fod yn bwysig a'r gwahanol fathau o werthusiadau;
- Camau allweddol i'w hystyried wrth ddatblygu cynllun gwerthuso, casglu a dadansoddi data, ac adrodd ar ganfyddiadau gwerthuso (gan gynnwys rhestr wirio atodol); ac,
- Enghreifftiau o ddangosyddion canlyniadau, mesuriadau a all ddweud wrthym a yw ymyrraeth yn cyflawni'r canlyniadau a anelwyd atynt[4].

1.2 Ar gyfer pwy mae'r pecyn cymorth

Mae'r pecyn cymorth wedi'i ddylunio i gefnogi **darparwyr ymyrraeth a chomisiynwyr** wrth ystyried ac ymgorffori gwerthuso trwy gydol dylunio a gweithredu ymyrraeth, ac mae'n canolbwyntio ar **ymyriadau wedi'u targedu at newid ar lefel unigolyn neu grŵp** (yn hytrach

[4] Wedi'i gyflwyno yn Fframwaith Canlyniadau VPU Cymru sydd ar gael ar wefan VPU https://www.violencepreventionwales.co.uk/research-evidence/wales-violence-prevention-unit-report-archive

nag effeithiau ar lefel poblogaeth system gyfan). Yn benodol, mae'r pecyn cymorth hwn yn darparu cymorth ar gyfer:

- Y bobl y mae'n ofynnol iddynt ddylunio, datblygu a gweithredu gwerthusiad ar gyfer y gwasanaeth neu'r rhaglen y maent yn ei darparu: bydd y pecyn cymorth hwn yn darparu arweiniad cam wrth gam ar sut i ddatblygu eich gwerthusiad;
- Cyllidwyr a chomisiynwyr: bydd y pecyn cymorth hwn yn rhoi gwybodaeth i chi am egwyddorion allweddol gwerthuso, i'ch helpu chi i werthuso'r dystiolaeth a ddarperir i chi gan y sefydliadau rydych chi'n eu cyllido a,
- Pobl sy'n comisiynu sefydliad allanol i gynnal gwerthusiad annibynnol ar eu gwasanaeth: bydd y pecyn cymorth hwn yn eich galluogi i nodi graddfa, cwmpas a ffocws y gwerthusiad yr ydych am ei gomisiynu.

Yn y pen draw, nod y pecyn cymorth yw cefnogi sefydliadau partner i ddarparu ymyriadau ar sail tystiolaeth ac adeiladu'r dystiolaeth ar gyfer atal trais ledled Cymru a thu hwnt. Er bod amryw raglenni atal trais wedi cael eu gwerthuso'n annibynnol (neu wrthi'n cael eu gwerthuso'n annibynnol (trwy werthuswr allanol), mae llawer o ffactorau'n golygu nad yw gwerthusiad allanol, annibynnol bob amser yn ymarferol nac yn angenrheidiol ar gyfer pob ymyrraeth. Fodd bynnag, mae darparwyr a chomisiynwyr ymyriadau mewn sefyllfa unigryw i ddatblygu cynllun gwerthuso mewnol mewn cydweithrediad â phartneriaid perthnasol, a lle bo hynny'n ymarferol, gweithredu prosesau monitro a gwerthuso i ddatblygu dealltwriaeth o'r hyn sy'n gweithio, i bwy a pham. Gall ystyried gwerthusiad ymyrraeth hefyd helpu partneriaid i archwilio eu hanghenion gwerthuso ac a oes angen cymorth ychwanegol arnynt gan werthuswr allanol.

1.3 Yr hyn nad yw'r pecyn cymorth hwn yn ei wneud

- Er bod y pecyn cymorth yn anelu at gynorthwyo partneriaid i ystyried ac ymgorffori gwerthuso a monitro yn eu hymyriadau **nid yw'n darparu fframwaith ar gyfer gwerthuso pob ymyrraeth a ddarperir ledled Cymru**. Yn hytrach, gall partneriaid ddefnyddio'r pecyn cymorth i ddylunio eu cynllun gwerthuso ymyrraeth eu hunain. Ar gyfer rhai ymyriadau, efallai y bydd angen cefnogaeth gan bartner gwerthuso annibynnol allanol (ee prifysgol neu gwmni ymchwil). Mae VPU Cymru hefyd ar gael i gefnogi partneriaid i ystyried a dylunio cynlluniau gwerthuso pwrpasol ar gyfer ymyriadau atal trais a ddarperir ledled Cymru. Mae dolenni i adnoddau eraill sy'n darparu gwybodaeth ar ddylunio a gweithredu gwerthusiadau ymyrraeth hefyd yn Atodiad 1.
- Nid yw'r pecyn cymorth **yn darparu arweiniad ar werthuso ymyriadau sy'n canolbwyntio ar newid yn y boblogaeth neu'r system gyfan** (er y gallai gwybodaeth a gyflwynir fod yn berthnasol i fesur newid o'r fath)[5].

[5] Mae gwerthusiad system gyfan o VPU Cymru, a ddisgrifir yn gryno yn Atodiad 4 yn cael ei gynnal gan LJMU, ac mae'r VPU wedi gweithredu mecanweithiau casglu data arferol i fonitro effeithiau tymor byr a thymor hir y VPU ledled Cymru, ac yn parhau i wneud hynny. Bydd gwerthusiad annibynnol ac allanol o ymyriadau a ddarperir ac a gomisiynir gan y VPU a sefydliadau partner yn llywio'r gwerthusiad VPU ehangach, ac yn helpu i ddatblygu gwell dealltwriaeth o ba ymyriadau sy'n gweithio, i bwy, pryd, sut a pham.

- **Nid** bwriad y fframwaith canlyniadau[4] **yw ymdrin â phob canlyniad posibl a nodir, neu ddangosyddion ar gyfer pob ymyrraeth**, ond yn hytrach fe'i cyflwynir fel canllaw i bartneriaid, yn seiliedig ar fodel rhesymeg VPU ac ymgynghoriad â rhanddeiliaid.

2. Cyflwyniad i werthuso

2.1 Beth yw gwerthuso a pham ei fod yn bwysig

Mae gwerthuso yn broses sy'n asesu gwerth, ansawdd ac effaith gwasanaeth, rhaglen, ymyrraeth neu brosiect (4). Mae hyn yn caniatáu i bartneriaid gasglu tystiolaeth ynghylch a yw rhaglen yn symud ymlaen yn unol â'r cynllun ac yn nodi cyfleoedd i wella perfformiad. Heb werthuso, nid ydym yn gwybod a yw amcanion rhaglen yn cael eu cyflawni. Mae gwerthuso'r modd y darperir gwasanaethau ac ymyriadau yn gam pwysig yn natblygiad a gweithrediad arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth, sy'n sylfaenol i sefydliadau'r sector cyhoeddus, gan gynnwys gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a chyfiawnder troseddol.

Gall gwerthuso alluogi gwasanaethau i ddatblygu dealltwriaeth o brofiad defnyddwyr gwasanaeth a nodi newidiadau i ddarparu rhaglenni i wella gwerth ac effaith. Gall wella monitro, a darparu gwybodaeth am rinweddau a methiannau rhaglenni i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau. Gall tystiolaeth ar effeithiolrwydd gefnogi'r achos dros gyllido a chynaliadwyedd rhaglenni. Argymhellir bod gwerthuso yn cael ei ymgorffori yn niwylliant sefydliad, er mwyn datblygu amgylchedd lle mae cwestiynau am bwrpas gweithgareddau, y canlyniadau a ragwelir ac ansawdd y rhaglen yn cael eu harchwilio fel mater o drefn (5).

2.2 Mathau o werthusiad

Mae yna lawer o fathau o werthusiadau y gellir eu gweithredu yn dibynnu ar bwrpas y gwerthusiad a'r hyn rydych chi am ei asesu (gweler Atodiad 2 am drosolwg o'r mathau o werthusiadau). Y ddau a ddefnyddir amlaf yw gwerthusiad canlyniadau/effaith, i asesu effaith gwrthrych y gwerthusiad (ee ymyrraeth) ar y grŵp targed (hy effaith ymyrraeth ar ganlyniadau ar gyfer cyfranogwyr ymyrraeth) a gwerthusiad prosesau, i gryfhau'r gwrthrych sy'n cael ei werthuso (hy nodi gwelliannau i ymyrraeth).

Mae **gwerthusiad canlyniadau/effaith** (a elwir hefyd yn werthusiad crynodol) yn dweud wrthym pa mor effeithiol yw rhaglen. Mae'r math hwn o werthusiad yn mesur canlyniadau gweithgaredd i bennu i ba raddau y mae'r amcanion yn cael eu cyflawni. Gall y canlyniadau fod yn rhai sylfaenol (y prif newid y mae'r ymyrraeth yn anelu at ei gyflawni) ac eilaidd (newidiadau eraill sy'n digwydd o ganlyniad i'r canlyniad sylfaenol) (6). Ymhlith y materion allweddol y gellir eu harchwilio mae (5):

- A yw'r rhaglen yn cyflawni'r canlyniadau a ragwelir?
- I ba raddau y cyflawnir y canlyniadau hyn?
- I ba raddau y gellir priodoli'r canlyniadau i'r rhaglen? Pa ffactorau eraill sy'n gysylltiedig â hyn, neu'n dylanwadu arno?
- Sut mae'r canlyniadau a'r costau'n cymharu â chanlyniadau eraill?
- Beth yw'r canlyniadau annisgwyl a beth yw goblygiadau hyn?

Gellir gwahanu canfyddiadau gwerthuso i wahaniaethu profiadau a chanlyniadau gwahanol is-grwpiau. Mae hyn yn ein helpu i ddeall a oes rhai grwpiau y mae'n ymddangos bod y rhaglen yn fwy effeithiol ar eu cyfer. Yna gallwn weithio ymhellach i ddeall pam mae hyn a diwygio cyflwyno rhaglenni yn ôl yr angen.

Mae **gwerthusiad prosesau** (a elwir weithiau'n werthusiad ffurfiannol) yn dweud wrthym beth sy'n gweithio'n dda ynglŷn â chyflwyno'r rhaglen a'r hyn nad yw'n gweithio'n dda. Mae'n bwysig casglu tystiolaeth am gryfderau a gwendidau rhaglen, er mwyn penderfynu a yw'n cael ei darparu yn ôl y disgwyl, er mwyn deall rhwystrau a heriau a rhoi prosesau ar waith i sicrhau y gellir gwella ansawdd mewn modd amserol. Dylai'r gwerthusiad proses gynnwys yr holl randdeiliaid i ddeall ansawdd ac effeithlonrwydd cyflwyno rhaglenni o safbwynt darparwr gwasanaeth a defnyddiwr. Ymhlith y materion allweddol y gellir eu harchwilio mae:

- Profiadau rhanddeiliaid o brosesau (ee y broses atgyfeirio).
- Hygyrchedd y rhaglen (ee lleoliad, amser, amlder).
- Profiadau darparwr gwasanaeth o gyflawni'r rhaglen.
- Profiadau defnyddwyr gwasanaeth o fynychu'r rhaglen.
- Rhwystrau i ddefnydd.
- Ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth ymhlith darparwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid ehangach.
- A yw'r rhaglen yn cael ei darparu'n effeithlon ac yn effeithiol? A yw'r rhaglen yn foesegol?
- A ellir cynyddu'r ymyrraeth ar gyfer ei chyflwyno mewn lleoedd eraill?

Mae gwerthusiadau prosesau yn aml yn cael eu gweithredu ochr yn ochr â gwerthusiadau canlyniadau, a gallant helpu i ddatblygu dealltwriaeth o sut mae'r ymyrraeth yn arwain at ganlyniadau (a ddangosir yn aml mewn model rhesymeg, gweler 3.2.1), sut ac ar gyfer pwy mae'r ymyrraeth yn gweithio orau, a meysydd lle gall fod angen newidiadau i alluogi canlyniadau cadarnhaol ar gyfer grwpiau eraill.

Mae astudiaeth achos 1 (Atodiad 7.3) yn rhoi enghraifft o broses a gwerthusiad canlyniadau a gymhwyswyd i ymyrraeth atal trais ffuglennol.

2.3 Pryd i werthuso

Mae'n bwysig nodi na ellir, neu na ddylid, gwerthuso pob rhaglen. Mae angen cynllunio ac ymgysylltu'n ofalus â phartneriaid perthnasol i asesu a ellir gwerthuso rhaglen a sut y gellir gwneud hynny. Mae'n bwysig gweithredu gwerthusiadau os (8):

- Buddsoddwyd amser, arian a/neu adnoddau sylweddol;
- Mae posibilrwydd o risg neu niwed;
- Mae'r rhaglen yn cynrychioli dull newydd neu arloesol;
- Mae'r rhaglen yn destun craffu neu'n flaenoriaeth wleidyddol uchel;
- Mae bwlch mewn gwasanaethau neu wybodaeth am sut i fynd i'r afael â phroblem neu ddarparu gwasanaethau effeithiol i boblogaeth benodol; neu,

- Mae bwriad i ehangu'r ymyrraeth a/neu ei gyflwyno i feysydd eraill.

Dylid ystyried, dylunio a gweithredu gwerthusiadau ar y pwynt cynharaf (naill ai cyn neu ar ddechrau rhaglen sy'n cychwyn, ac os yw'n ymarferol wrth i chi ddylunio a cheisio cyllid ar gyfer y rhaglen). Mae hyn yn sicrhau bod y wybodaeth gywir yn cael ei chasglu o'r dechrau a bod tystiolaeth yn cael ei chasglu mewn modd amserol. Mae aros nes bod rhaglen yn dod i ben i ddechrau gwerthuso yn beryglus oherwydd nid oes unrhyw sicrwydd bod y data cywir wedi'u casglu ac nid oes amser i weithredu ar unrhyw argymhellion a allai fod wedi gwella'r cyflwyno a'r canlyniadau. Yn ogystal, wrth asesu effaith rhaglen, bydd casglu data cyn cychwyn ar eich gweithgaredd yn caniatáu ichi wneud cymariaethau ar ôl ymyrraeth i asesu newidiadau yn ystyrlon (gweler 3.4).

3. Cynllunio a gweithredu gwerthusiad

Wrth ddatblygu a chyflwyno gwerthusiad, mae yna lawer o bethau i'w hystyried. Mae'n bwysig iawn bod partneriaid yn cynllunio eu gwerthusiad yn llawn cyn ei weithredu. Bydd hyn yn sicrhau bod partneriaid yn mesur y rhaglen yn briodol, er mwyn dal y newid sy'n cael ei asesu yn llawn. Mae angen i chi gymryd y camau canlynol wrth gynllunio a gweithredu gwerthusiad:



3.1. Datblygu dealltwriaeth gynhwysfawr o'r rhaglen

Mae'n bwysig datblygu dealltwriaeth gynhwysfawr o wrthrych gwerthusiad cyn penderfynu pa werthusiad sydd ei angen arnoch a sut i fesur neu asesu hyn. Mae angen i chi ddeall:

- **Beth** sy'n cael ei ddarparu - p'un a yw'n ymyrraeth (sylfaenol/eilaidd/trydyddol), rhaglen, gwasanaeth neu brosiect, a pha gynnwys sy'n cael ei gyflwyno? Bydd cael disgrifiad o'r hyn rydych chi'n ei werthuso ac unrhyw ddeunyddiau yn eich helpu i ddeall pa elfennau sydd angen eu hasesu a sut i'w hasesu.
- **Pwy** y mae'n cael ei chyflwyno iddynt - beth yw'r boblogaeth darged a pha mor fawr yw'r garfan?
- **Lle** mae'n cael ei chyflwyno - beth yw lleoliad a safle'r cyflwyno (gan ystyried er enghraifft yr amgylchedd, awyrgylch a hygyrchedd i ddefnyddwyr gwasanaeth)?
- **Pryd** mae'n cael ei chyflwyno - beth yw'r amserlenni, gan gynnwys nifer a hyd sesiynau ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth?
- **Sut** mae'n cael ei darparu - mecanwaith (ee ar-lein, wyneb yn wyneb) a chan bwy?
- **Pam** mae'n cael ei chyflwyno - beth oedd y rhesymeg a beth mae am ei gyflawni?

Mae deall y 'pam' yn rhan annatod o ddatblygu amcanion y gwerthusiad. Mae angen penderfynu ar amcanion y gwerthusiad yn gyntaf, ac mae angen i'r rhain alinio ag amcanion gwrthrych y gwerthusiad.

3.2. Datblygu amcanion gwerthuso

Dylai'r amcanion gwerthuso gael eu diffinio'n glir ar ddechrau'r broses gynllunio a'u cytuno gan yr holl randdeiliaid, a dylid sefydlu graddfa a chwmpas gwerthusiad mewn cydweithrediad â chomisiynwyr y rhaglen sy'n cael ei gwerthuso. Bydd nifer o ffactorau yn pennu hyn, gan gynnwys pwrpas y gwerthusiad, amserlen, cyllideb a chapasiti (gweler 3.3.1).

3.2.1. Modelau rhesymeg

Mae datblygu model rhesymeg yn helpu'r holl randdeiliaid i ddiffinio'n glir yr amcanion y mae'r rhaglen yn anelu at eu cyflawni. Mae hyn yn ei dro wedyn yn helpu i lywio a diffinio'r amcanion ar gyfer y gwerthusiad. Mae model rhesymeg yn darparu cynrychiolaeth graffig o raglen, sy'n rhoi manylion y mewnbynnau, y gweithgareddau, yr allbynnau a'r nodau a fwriadwyd yn eu trefn. Gall model rhesymeg helpu rhanddeiliaid i ddeall strwythur a swyddogaeth gyffredinol rhaglen ac adeiladu consensws cryf ynghylch yr hyn y maent yn gweithio tuag ato; mae hyn yn arbennig o ddefnyddiol wrth werthuso effaith gwahanol weithgareddau sy'n cael eu cyllido o dan un rhaglen a/neu wrth werthuso dulliau sy'n seiliedig ar le, lle mae gan bartneriaid yn aml amcanion gwahanol a diddordebau gwerthuso cystadleuol (9) (gweler blwch 1). Gall modelau rhesymeg hefyd helpu i nodi lle orau i gyfeirio ymdrechion gwerthuso a monitro, a thrwy hynny lywio cwmpas a ffocws y gweithgareddau hyn.

Blwch 1: Pam defnyddio modelau rhesymeg?

- I gyfleu gweledigaeth a chynlluniau y cytunwyd arnynt.
- Rhoi eglurder ynghylch gweithgareddau a chanlyniadau.
- Ymgysylltu a chynnal rhanddeiliaid (darparu ysbrydoliaeth i weithio gyda'i gilydd i gyflawni nodau).
- Cynorthwyo cynllunio a rheoli.
- Canolbwyntio a gwella'r gweithredu.
- Helpu cynllunwyr i wybod pa adnoddau sydd eu hangen, a phryd.
- Amlygu rhagdybiaethau a risgiau.
- Dangos tebygrwydd a gwahaniaethau i weithgareddau eraill y rhaglen.

Mae prif elfennau model rhesymeg yn cynnwys:



Diffiniadau:

- Mae mewnbynnau'n cyfeirio at yr adnoddau sydd eu hangen i gyflwyno'r rhaglen (ee cyllid, staff, cyfleusterau ac ati).
- Mae gweithgareddau'n cyfeirio at y pethau allweddol sy'n cael eu cyflwyno.
- Mae allbynnau'n cyfeirio at y cynhyrchion (ee nifer y bobl a atgyfeiriwyd, nifer y bobl sy'n cwblhau ymyriadau ac ati).
- Mae'r canlyniadau tymor byr yn cyfeirio at y canlyniadau sylfaenol ac eilaidd sy'n digwydd yn y tymor byr.

- Mae'r effeithiau tymor hwy yn cyfeirio at y newidiadau sy'n digwydd o ganlyniad i'r canlyniadau tymor byr.

Gelwir yr enghraifft a ddarperir uchod yn fodel rhesymeg 'piblinell', lle mae'r elfennau'n cael eu cyflwyno mewn dull llinol. Gellir cyflwyno model rhesymeg hefyd fel 'cadwyn canlyniadau' sy'n cynrychioli'r ymyrraeth a'r canlyniadau fel cyfres o ganlyniadau sy'n dangos cysylltiadau tybiedig rhwng y gwahanol ganlyniadau. Yma, mae'r cysylltiadau rhwng gweithgaredd a chanlyniadau (y gadwyn achosol) yn glir, ac mae'n haws nodi'r gweithgareddau monitro a gwerthuso sy'n ofynnol (10).



Ffigur 1: Enghraifft o fodel rhesymeg 'Cadwyn Canlyniadau'

3.2.2. Damcaniaeth newid

Er bod model rhesymeg yn darparu cadwyn o ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â rhaglen benodol, nid yw'n dweud wrthym sut mae'r newid yn digwydd. Mae'n ddefnyddiol datblygu theori newid i ddisgrifio sut y bwriedir i'r rhaglen weithio a sicrhau newid i'r unigolion, grwpiau a chymunedau y mae wedi'u targedu tuag atynt (10). Argymhellir datblygu theori newid yn arbennig ar gyfer gwerthuso dulliau seiliedig ar le, er mwyn diffinio sut beth fydd llwyddiant a diffinio'r rhagdybiaethau sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r rhaglen. Yma, argymhellir caniatáu i'r holl bartneriaid gyfrannu at theori newid a strategaeth werthuso gysylltiedig er mwyn dal canlyniadau tymor hir a newidiadau mewn meithrin capasiti, cysylltiadau a newid ymddygiad (9).

I fod yn effeithiol, rhaid i theori newid egluro sut a pham y bydd gweithgaredd yn arwain at newid, gan gyfeirio at y sefyllfa ehangach (gan gynnwys ffactorau a allai ddylanwadu ar newid ar lefelau economaidd-gymdeithasol amrywiol). Yna gellir defnyddio'r lefel hon o fanylion i lywio ffocws y cynlluniau monitro a gwerthuso i sicrhau bod y math cywir o ddata yn cael eu casglu (10).

Nid yw model rhesymeg a theori newid yn sefydlog, gellir eu haddasu trwy gydol gwerthusiad wrth i dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio ai peidio, ac i bwy a pham gael ei nodi.

3.3. Datblygu cynllun gwerthuso

3.3.1 Asesu ymarferoldeb gwerthusiad a diffinio'r ffocws

Dylid datblygu cynllun monitro a gwerthuso clir ar ddechrau rhaglen, gyda mewnbwn gan yr holl randdeiliaid (gweler blwch 2). Dylid defnyddio'r model rhesymeg a theori newid i arwain y cynllun gwerthuso, yr amcanion a'r data a gesglir. Gall gwerthusiadau rhaglenni atal trais amrywio o ran maint a chwmpas, a bydd angen dull pwrpasol ac asesiad o'r gwerthusiad ar gyfer pob un[6]. Gall defnyddio fframwaith fel Re-Aim helpu i ganolbwyntio'r elfennau allweddol y dylid eu cynnwys mewn gwerthusiad (gweler blwch 3[7]). Yn nodweddiadol, mae gwerthusiadau rhaglenni iechyd cyhoeddus yn cynnwys gwerthusiad prosesau, canlyniadau a/neu economaidd. Mae'r pecyn cymorth hwn yn canolbwyntio ar werthusiadau prosesau a chanlyniadau; cynghorir partneriaid i ymgynghori ag economegydd iechyd i gael mwy o wybodaeth am werthuso economaidd. Bydd nifer o ffactorau yn pennu graddfa a chwmpas y gwerthusiad gan gynnwys:

- **Maint y sylfaen werthuso a/neu dystiolaeth a damcaniaethau presennol ar gyfer y rhaglen**, a pha ddata ychwanegol sy'n ofynnol gan werthusiad.
    - Mae Sefydliad Iechyd y Byd wedi datblygu ystod o adnoddau sy'n darparu tystiolaeth ar atal trais ac ymatebion, ac mae gwefan VPU yn darparu gwybodaeth am yr ymchwil a'r dystiolaeth ddiweddaraf:
      https://apps.who.int/violence-info/
      https://www.who.int/violence_injury_prevention/violence/en/
      https://www.violencepreventionwales.co.uk/research-evidence
- **Pwrpas y gwerthusiad, gan ystyried y cwestiynau allweddol y mae'r gwerthusiad yn ceisio eu hateb megis a yw'r rhaglen yn cael ei darparu fel y cynlluniwyd, a ellir ei gwella, a yw'n gwneud gwahaniaeth ac a yw'n werth yr adnoddau sy'n ofynnol ar gyfer ei gweithredu**. Gellir gweithredu gwerthusiadau ar gamau gwahanol o weithredu'r rhaglen ac am wahanol resymau, a gellir eu hailadrodd neu eu hymgorffori trwy gydol y rhaglen er mwyn caniatáu myfyrio a gwella'n barhaus ac i asesu effaith tymor byr a thymor hwy'r ymyrraeth. Er enghraifft, ar gam cynnar datblygu rhaglen, gall gwerthusiad ganolbwyntio ar brosesau i lywio datblygiad y rhaglen, gyda monitro neu werthuso yn y dyfodol yn canolbwyntio ar fesur canlyniadau ac effeithiau (gyda monitro prosesau parhaus).
- **Y gyllideb, y capasiti, yr amserlen a'r arbenigedd sydd ar gael ar gyfer y gwerthusiad.** Dylid asesu a ellir gweithredu gwerthusiad priodol am gost resymol o fewn yr amserlen sydd ar gael. Pwy fydd yn casglu, dadansoddi ac adrodd ar y data? A oes angen i bartneriaid eraill fod yn rhan

Blwch 2: Rhaid i werthusiadau gael…

- Nodau ac amcanion penodol
- Pwrpas a ffocws clir
- Amserlen glir
- Defnyddio cyfranogiad rhanddeiliaid
- Yn ddelfrydol defnyddio ddulliau cymysg
- Dyddiadau cau adrodd clir a chynlluniau lledaenu

[6] Mae Atodiad 7.1 yn darparu dolenni i wybodaeth bellach ar asesu gwerthusiadau.
[7] Gweler https://www.re-aim.org/about/

o'r gwerthusiad i ddarparu mewnwelediad ehangach (rhanddeiliaid a derbynwyr rhaglenni) a/neu arbenigedd mewn ymchwil a gwerthuso (ee ymchwilwyr/gwerthuswyr o fewn prifysgol/cwmni ymchwil; gall VPU Cymru hefyd gynnig help a chymorth).

- **Graddfa a chwmpas yr ymyrraeth**, gan ystyried er enghraifft nifer y cyfranogwyr a hyd yr ymgysylltiad yn yr ymyrraeth, a hyd y rhaglen.
- **Yr ystod eang o ffactorau risg ar gyfer trais, sy'n cydberthyn yn aml, sy'n bresennol ar lefel gymdeithasol, gymunedol, perthynas ac unigolyn** (11). Mae tystiolaeth yn dangos y gall dod i gysylltiad â thrais yn gynnar mewn bywyd, profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs) a thrawma gynyddu'r risg o ymddygiadau sy'n niweidio iechyd (gan gynnwys trais), iechyd a llesiant gwael, a ffactorau eraill (ee cyrhaeddiad addysg gwael) ar draws cwrs bywyd (12- 13). Yn hanfodol fodd bynnag, gellir atal trais, ACEs a thrawma, a gellir sefydlu rhaglenni i helpu pobl, cymunedau a chymdeithas i adeiladu cydnerthedd a lliniaru effeithiau dod i gysylltiad â niwed (13). Ledled Cymru, mae datblygiad sefydliadau wedi'u llywio gan Drawma ac ACE yn cael ei hyrwyddo gan Lywodraeth Cymru,[8] ac mae dulliau o'r fath yn dod i'r amlwg ar draws ystod o wasanaethau, rhaglenni ac ymyriadau. Dylai ystyried i ba raddau mae ymyrraeth wedi'i llywio gan Drawma ac ACE, ac os, sut, pryd a ble y mae'n mynd i'r afael â ffactorau risg sylfaenol, ac yn hyrwyddo ffactorau amddiffynnol (gan gysylltu â'r model rhesymeg) fod yn egwyddor arweiniol ar gyfer gwerthuso rhaglenni atal trais.

Blwch 3: Fframwaith Gwerthuso Re-Aim

Cyrhaeddiad: Nifer, cyfran a chynrychiolaeth absoliwt unigolion sy'n barod i gymryd rhan mewn menter, ymyrraeth neu raglen benodol.

Effeithiolrwydd: Effaith ymyrraeth ar ganlyniadau pwysig, gan gynnwys effeithiau negyddol posibl, ansawdd bywyd a chanlyniadau economaidd.

Mabwysiadu: Nifer, cyfran a chynrychiolaeth absoliwt lleoliadau ac asiantau ymyrraeth (pobl sy'n cyflwyno'r rhaglen) sy'n barod i gychwyn rhaglen.

Gweithredu: Ar lefel y lleoliad, mae gweithredu'n cyfeirio at ffyddlondeb y rhaglen i wahanol elfennau protocol ymyrraeth, gan gynnwys cysondeb cyflwyno fel y bwriadwyd ac amser a chost yr ymyrraeth. Ar lefel unigol, mae gweithredu yn cyfeirio at ddefnydd defnyddiwr gwasanaeth o'r strategaethau ymyrraeth.

Cynnal: I ba raddau y mae'r canlyniadau sy'n gysylltiedig â rhaglen yn cael eu cynnal. Gall hyn fod o safbwynt sefydliadol (ee polisi, diwylliant), a safbwynt ar lefel unigolyn. Diffinnir cynnal fel effeithiau tymor hir rhaglen ar ganlyniadau chwe mis neu fwy ar ôl y cyswllt ymyrraeth diweddaraf.

[8] Am wybodaeth bellach gweler: https://www.aceawarewales.com/about

Mae gwerthusiadau rhaglenni yn amrywio ac mae angen i'r fethodoleg a fabwysiadwyd fod yn briodol at ddibenion yr astudiaeth. Yma rydym yn darparu gwybodaeth gryno ar ddulliau ansoddol a meintiol (mae dolenni i wybodaeth bellach ar fethodolegau gwerthuso ar gael yn Atodiad 7.1). Gall gwerthusiadau gynnwys un fethodoleg, ond yn ddelfrydol bydd yn cynnwys cymysgedd o ddulliau i ateb cwestiynau'r gwerthusiad. Gellir defnyddio'r dulliau canlynol o gasglu data:

- Mae **data ansoddol** (hy data nad yw'n rhifiadol)**,** yn cynnwys ymgynghori â rhanddeiliaid a gasglwyd trwy gyfweliadau neu grwpiau ffocws er enghraifft, a gall ddarparu tystiolaeth i lywio gwerthusiadau prosesau a chanlyniadau. Mae data ansoddol yn nodweddiadol yn disgrifio rhaglen, canlyniadau a arsylwyd, bylchau mewn gweithredu (gan ddefnyddio'r model rhesymeg fel canllaw i gyflawni'r rhaglen a fwriadwyd) ac egluro sut a pham mae pethau'n digwydd. O'i gymharu â dulliau meintiol, mae fel arfer yn cynnwys llai o gyfranogwyr, gan fod y ffocws ar gasglu gwybodaeth fanwl, a all gymryd mwy o amser i'w hennill.
- Mae **dulliau ymchwil meintiol** (hy data rhifiadol) yn aml yn anelu at fesur prosesau fel graddfa a chyrhaeddiad ymyrraeth, ac effeithiau a chanlyniadau (a nodwyd yn y model rhesymeg), a gallant gynnwys arolygon a dadansoddiadau o ddata eilaidd megis data gweinyddol neu adolygu cofnodion. Mae yna ystod o fesurau ar gael, fel holiaduron a graddfeydd, sydd wedi'u datblygu gan ymchwilwyr i asesu ymddygiadau, teimladau a chanfyddiadau. Mae llawer o'r rhain eisoes wedi'u profi i'w dilysu. Darperir awgrymiadau ar gyfer mesurau canlyniadau yn y fframwaith canlyniadau.
- Mae **ffynonellau data ychwanegol** a allai ychwanegu cyd-destun i werthusiad yn cynnwys dulliau casglu data arsylwadol (ee arsylwi a chofnodi gweithrediad y rhaglen, a chanlyniadau fel rhyngweithio rhwng rhieni a phlant) ac adolygu dogfennaeth y rhaglen.

Mae'n bwysig archwilio os a sut **gall aelodau'r cyhoedd, yn enwedig grŵp targed y rhaglen, gyfrannu at ddylunio, cyflwyno a chynhyrchu'r gwerthusiad.** Gall hyn sicrhau bod y gwerthusiad a'r canlyniadau a fesurir yn ystyrlon i'r rhai a ddylai elwa fwyaf o'r rhaglen, a bod yr offer casglu data yn briodol (ee a ydynt yn ddealladwy ac yn hawdd i'w cwblhau) ar gyfer y grŵp targed. Mae cynnwys y cyhoedd wrth ddehongli a lledaenu canfyddiadau hefyd yn helpu i sicrhau bod canfyddiadau yn cael eu dehongli'n briodol a'u rhannu mewn ffyrdd ystyrlon.

Mae NIHR INVOLVE yn darparu arweiniad ar gyd-gynhyrchu ymchwil a sut i gynnwys aelodau'r cyhoedd mewn ymchwil a gwerthuso:

- Cydgynhyrchu: https://www.invo.org.uk/posttypepublication/guidance-on-co-producing-a-research-project/
- Cynnwys y cyhoedd: https://www.invo.org.uk/resource-centre/resource-for-researchers/

3.3.2 Nodi mesuriadau canlyniadau

Mae'n hanfodol bod gan raglen nodau clir, a gall defnyddio'r acronym SMART helpu i sicrhau bod nodau'r rhaglen yn Benodol, Mesuradwy, Cyraeddadwy, Perthnasol ac Amserol. Fodd

bynnag, mae'n bwysig cydnabod bod gan lawer o raglenni ganlyniadau sy'n anodd eu mesur. Mae Funnell a Rogers (10) yn rhybuddio na ddylai mesuradwyedd fod yn ffactor o bwys wrth benderfynu pa ganlyniadau i'w cynnwys o fewn model rhesymeg a theori newid, ac maent yn awgrymu y dylid diffinio canlyniadau mewn termau mesuradwy mor eglur â phosibl, gan gydnabod efallai na fydd hyn bob amser yn syml.

Gall ystyried nodweddion dymunol canlyniad a fwriadwyd helpu i nodi dangosyddion sy'n fesurau canlyniadau defnyddiol ac ystyrlon (5). Er enghraifft, gellir rhannu nodweddion y canlyniad “Plant a phobl ifanc sydd wedi'u grymuso i wneud penderfyniadau gwybodus a theimlo'n bositif am y dyfodol” yn ddangosyddion i fesur 'gwneud penderfyniadau gwybodus' a 'theimlo'n bositif am y dyfodol'. Gallwn hefyd ystyried hyn gan gyfeirio at grwpiau penodol o blant a phobl ifanc (ee a oes grwpiau penodol, yn byw mewn rhai ardaloedd daearyddol a/neu â rhai nodweddion y mae'r canlyniad hwn yn arbennig o berthnasol iddynt?). Mae gweithio i ddatblygu dangosyddion mesur priodol yn sicrhau nad yw monitro a gwerthuso yn canolbwyntio ar y canlyniadau hawdd eu mesur yn unig. Mae'n bwysig dewis canlyniadau y rhagwelir y byddant yn cael eu cyflawni yn yr amserlen werthuso - gall y model rhesymeg gynorthwyo dealltwriaeth o bryd y disgwylir cyflawni canlyniadau ac effeithiau.

Mae Fframwaith Canlyniadau VPU Cymru yn darparu enghreifftiau o ganlyniadau, dangosyddion a mesuriadau atal trais. Mae'r rhain yn seiliedig ar fodel rhesymeg VPU Cymru a rhagwelir y byddant yn berthnasol i ystod eang o weithgaredd atal trais a weithredir ledled Cymru, a thu hwnt. Er nad yw'r rhestr yn gynhwysfawr, ac efallai y bydd angen dangosyddion canlyniadau ychwanegol neu amgen, neu newid y dangosyddion a awgrymir ar gyfer rhai gwerthusiadau rhaglenni, bydd darparu'r rhestr o ddangosyddion yn helpu cysondeb datblygu wrth fesur canlyniadau ledled Cymru, ac yn adeiladu'r dystiolaeth ar gyfer atal trais.

Ar gyfer pob dangosydd canlyniad, mae'r fframwaith yn darparu manylion am:

- Pa ganlyniad y mae'r dangosydd yn ei fesur (ee gostyngiad mewn trais);
- Y mesur (ee canran y glasoed yr ymosodwyd arnynt yn gorfforol yn ystod yr X mis diwethaf);
- Dadgyfuno awgrymedig o'r mesur (ee yn ôl demograffeg);
- Ffynonellau data posibl (gan gynnwys ffynonellau data presennol neu arolygon a weithredwyd yn bwrpasol);
- Offer mesur a/neu gwestiynau enghreifftio; a,
- Gwybodaeth ychwanegol fel cyfyngiadau'r dangosydd, amlder mesur a awgrymir a lefel.

3.3.3 Llywodraethu ac ystyriaethau moesegol

Rhaid i gynllun gwerthuso ystyried goblygiadau moesegol gweithredu'r gwerthusiad, gan gwmpasu ei ddyluniad, ei gyflwyniad a lledaenu canfyddiadau. Mae gwerthuso ymyriadau atal trais yn gofyn am gasglu gwybodaeth am drais, a ffactorau risg ac amddiffynnol cysylltiedig, ar draws cwrs bywyd, a gellir casglu gwybodaeth yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan

blant ac oedolion. Mae hyn yn peri ystyriaethau moesegol penodol, y mae angen eu hystyried a rhoi sylw iddynt mewn cynllun gwerthuso (15-17). Mae'n bwysig:

- **Sicrhau fod y gwerthusiad yn gyfiawn ac yn deg,** gan ystyried beichiau a buddion cyfranogi, gan sicrhau bod buddion y gwerthusiad yn gorbwyso unrhyw risgiau a ragwelir.
- **Ystyried y cymhellion, y canlyniadau a'r cyd-destun y mae trais/cam-drin ac ymyrraeth yn digwydd ynddynt.**
- **Lleihau'r risg o niwed** (trallod, dial a niwed corfforol ac emosiynol eraill) ar gyfer cyfranogwyr gwerthuso, ymchwilwyr a darparwyr gwasanaeth, yn enwedig wrth archwilio materion sensitif a/neu ymgysylltu â grwpiau agored i niwed (ee plant neu oroeswyr trais domestig sy'n aml yn profi trais gan y rhai sy'n agos atynt), a sicrhau bod mesurau diogelu perthnasol yn cael eu gweithredu (ee mynediad at gymorth cyn, yn ystod ac ar ôl cyfranogiad gwerthuso) i amddiffyn pobl a gwasanaethau rhag niwed. **Dylid cynnal asesiad risg a datblygu cynllun diogelwch[9].**
    - Gall arweinwyr diogelu a gweithredwyr rhaglenni ddarparu rôl allweddol wrth lywio dyluniad gwerthusiadau i leihau risg, a lle bo hynny'n briodol, cynnig rôl ddiogelu os a phan fydd niwed yn codi. Fel lleiafswm, dylid rhoi manylion i gyfranogwyr gwerthusiad sut i gael gafael ar gymorth os oes angen, gan ddarparu manylion cyswllt ar gyfer gwasanaethau cymorth perthnasol.
- **Sicrhau caniatâd gwirfoddol a gwybodus ar gyfer cyfranogiad mewn gwerthusiad**, gan ystyried dealltwriaeth, a rôl porthorion (ee rôl gwarcheidwaid/rhoddwyr gofal wrth i blant gymryd rhan mewn ymchwil). Mae angen rhoi digon o amser i gyfranogwyr ystyried eu cyfranogiad yn yr ymchwil cyn rhoi caniatâd.
- **Cynnal anhysbysrwydd a chyfrinachedd (o fewn terfynau cyfrinachedd)** cyfranogwyr a sefydliadau sy'n cymryd rhan yn y gwerthusiad, oni bai eu bod wedi cydsynio i'w manylion gael eu rhannu, ac ni fydd rhannu'r manylion hyn yn achosi niwed.
- **Sicrhau fod cyfranogwyr yn ymwybodol o derfynau cyfrinachedd ac unrhyw amgylchiadau eithriadol pan ellir torri cyfrinachedd.** Er enghraifft, pe bai ymchwilydd yn nodi y gallai'r cyfranogwr neu eraill fod mewn perygl sylweddol o niwed, efallai y bydd angen i'r ymchwilydd adrodd am hyn i awdurdod priodol (er enghraifft mewn achosion a amheuir o gam-drin plant). Byddai hyn fel arfer yn cael ei drafod gyda'r cyfranogwr yn gyntaf.
- **Cydymffurfio â gofynion llywodraethu sefydliadol a deddfwriaethol a pholisïau diogelu data (ee GDPR),** gan sicrhau, pan fo'n ymarferol bod cyfrinachedd ac anhysbysrwydd yn cael eu cynnal, bod mesurau ar waith i gadw'r data'n ddiogel, a'ch bod ond yn casglu data rydych chi'n mynd i'w defnyddio yn y gwerthusiad.

Mae pwyllgorau adolygu moeseg yn asesu moeseg cynllun gwerthusiad, gan gynnwys offer ymchwil a phrosesau gweithredu. Lle mae ar gael, dylai'r gwerthusiad sy'n cynnwys pobl **gael**

[9] Mae teclyn ar gyfer ystyried diogelwch a llesiant cyfranogwyr, ymchwilwyr a gwasanaethau ar gael yma: https://www.welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2020/11/Research-Integrity-Framework-RIF-on-Domestic-Violence-and-Abuse-DVA-November-2020.pdf

cymeradwyaeth gan bwyllgor adolygu moeseg, cyn ei weithredu (yn aml trwy brifysgol neu fwrdd iechyd)**. Dylid hefyd ystyried cymeradwyaethau eraill a allai fod yn ofynnol.** Er enghraifft, mae gan rai sefydliadau bwyllgorau llywio ymchwil a gwerthuso mewnol, sy'n adolygu ac yn cymeradwyo prosiectau ymchwil a gwerthuso cyn eu gweithredu yn eu lleoliad neu gyda'u defnyddwyr gwasanaeth.

Lle nad oes prosesau o'r fath ar gael, mae'n bwysig cofio bod gan **bob un ohonom gyfrifoldeb i sicrhau bod gwerthusiadau yn foesegol ac yn gadarn. Gellid sefydlu panel arbenigol/grŵp cynghori i lywio'r gwerthusiad**, gan ddarparu tryloywder, adolygiad cymheiriaid/annibynnol ac uniondeb, a dylid ceisio cynnwys aelodau o'r cyhoedd, megis defnyddwyr gwasanaeth a goroeswyr trais.

- Mae Cymorth i Fenywod wedi datblygu **fframwaith uniondeb ymchwil ar drais a cham-drin yn y cartref** i hyrwyddo arfer gorau, gan gwmpasu: diogelwch a llesiant; tryloywder/atebolrwydd; cydraddoldeb, hawliau dynol a chyfiawnder cymdeithasol; ymgysylltu; a moeseg ymchwil[10].

3.4 Casglu a dadansoddi data

Mae ystyried pryd i gasglu data, gan bwy a'r dadansoddiadau y bydd hyn yn llywio yn rhan bwysig o gynllun gwerthuso. Yn dibynnu ar raddfa a chwmpas yr ymyrraeth a'r gwerthusiad, efallai na fydd angen casglu data gan yr holl gyfranogwyr, fodd bynnag, bydd angen i chi fod yn glir beth yw eich strategaeth o ran dewis sampl a pham y gweithredwyd hyn.

- ***Ar gyfer gwerthusiad proses*** er enghraifft, gellir casglu data ansoddol gan ychydig o gyfranogwyr sy'n cynrychioli gwahanol randdeiliaid (gweithredwyr rhaglenni, derbynwyr a buddiolwyr ehangach), gyda chasglu data yn dod i ben pan na nodir unrhyw wybodaeth newydd, ac mae themâu cyffredin yn digwydd yn y data.
- ***Ar gyfer gwerthusiad canlyniadau*** gellir casglu data gan yr holl gyfranogwyr, neu ddetholiad ar hap[11] o gyfranogwyr. Mae maint y sampl ar gyfer casglu data canlyniadau yn bwysig - gyda meintiau sampl mwy gallwch fod yn fwy hyderus bod canfyddiadau yn cynrychioli'r boblogaeth darged, ond gyda meintiau sampl llai mae'n anoddach nodi effeithiau a allai fod yn digwydd. Gall partner gwerthuso gynorthwyo gyda nodi nifer y cyfranogwyr sydd eu hangen mewn gwerthusiad canlyniadau i ganfod newidiadau ystyrlon. Wrth archwilio canlyniadau, mae'n bwysig bod data cymharu yn cael eu casglu fel eich bod chi'n deall yn gliriach a yw'r newidiadau a wnaed yn gysylltiedig â'r rhaglen. Gall hyn gynnwys casglu data gan gyfranogwyr cyn, ac ar ôl iddynt gymryd rhan mewn rhaglen, ac os yw'n ymarferol, gan eraill nad ydynt yn ymwneud â'r rhaglen:
    - ***Casglu data cyn ac ar ôl canlyniad:*** Yn ddelfrydol, byddai data meintiol yn cael eu casglu cyn ac ar ôl cwblhau rhaglen, gan ganiatáu i newidiadau mewn dangosyddion canlyniadau gael eu mesur. Gellir casglu data hefyd ar ôl

[10] https://www.welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2020/11/Research-Integrity-Framework-RIF-on-Domestic-Violence-and-Abuse-DVA-November-2020.pdf

[11] I leihau'r risg o ragfarn dewis.

wythnosau/misoedd/blynyddoedd ar ôl cwblhau ymyrraeth i archwilio a yw newidiadau'n cael eu cynnal.

- ***Grŵp rheoli:*** Os yw'n ymarferol, byddai data hefyd yn cael eu casglu gan grŵp cymaradwy (grŵp rheoli) i asesu'n fwy trylwyr a yw'r newidiadau a arsylwyd yn gysylltiedig â'r rhaglen neu o ganlyniad i newidiadau eraill (a allai fod yn anhysbys) yn y boblogaeth.

- ***Ar gyfer gwerthuso prosesau a chanlyniadau*** gellir casglu data o wasanaethau statudol (ee awdurdodau lleol, yr heddlu, gwasanaethau iechyd a chymorth). Mae'r fframwaith canlyniadau yn darparu enghreifftiau o fesurau yn seiliedig ar ddata o wasanaethau statudol, megis troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu. Mae rhannu data a gedwir gan gyrff cyhoeddus yn allweddol i helpu i wella bywydau pobl a lleihau anghydraddoldebau, ac mae'n bwysig sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio i lywio gweithgaredd atal a gwella llesiant y boblogaeth, lle mae data ar gael. Efallai y bydd angen i chi weithio gydag asiantaethau partner i ddatblygu prosesau i sicrhau bod y data sydd ar gael yn hygyrch (ee cytundebau rhannu data). Gall ceisiadau rhyddid gwybodaeth alluogi mynediad at wybodaeth allweddol a allai lywio proses (ee nifer y bobl sy'n cyrchu gwasanaeth) a chanlyniad (ee nifer y troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu, cyn, yn ystod ac ar ôl ymyrraeth).

Gall dadansoddiadau o ddata ansoddol a meintiol amrywio, ac maent yn dibynnu ar ddibenion y gwerthusiad, yr adnoddau a'r sgiliau sydd ar gael. Ar lefel sylfaenol:

- Gellir dadansoddi a chrynhoi ***data ansoddol*** yn themâu allweddol. Gellir rhagddiffinio themâu neu eu tynnu o'r wybodaeth a gasglwyd o'r casglu data.
- Gall ***data meintiol*** gyflwyno newidiadau mewn canlyniadau ar ffurf niferoedd, newid canran neu gyfraddau. Darperir enghreifftiau o fesurau a dadgyfuno a awgrymir (ee oedran, rhyw) ar gyfer pob dangosydd a gynhwysir yn y fframwaith canlyniadau.

Mae'n bwysig ystyried gwahaniaethau defnyddwyr gwasanaeth (ee demograffig) ac effaith anghydraddoldebau cymdeithasol ar brofiadau trais ac ymyriadau (gan gynnwys effeithiau ymyriadau), ac ymgorffori hyn mewn casglu a dadansoddi data. Er enghraifft, casglu data ar ddemograffeg gymdeithasol defnyddwyr gwasanaeth a dadgyfuno dadansoddiadau data yn ôl grwpiau (ee oedran, rhyw, ardal amddifadedd).

Gall partner sydd â sgiliau arbenigol mewn ymchwil a gwerthuso (ee prifysgol neu gwmni ymchwil) ddarparu cyngor pellach ar ddadansoddiadau data, a'u cefnogi.

3.5 Adrodd a lledaenu

Mae adrodd a lledaenu canfyddiadau gwerthuso yn hanfodol i ddatblygu arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a llywio datblygiad a gweithrediad rhaglenni atal trais ledled Cymru a thu hwnt. Dylid nodi canfyddiadau gwerthuso, cadarnhaol a negyddol, ac mae'n arfer da lledaenu canfyddiadau i gyfranogwyr yr astudiaeth a phartneriaid eraill sydd â diddordeb. Mae cynhyrchu adroddiad gwerthuso yn ffordd ddefnyddiol o grynhoi a lledaenu

canfyddiadau gwerthuso. Mae adroddiad gwerthuso fel arfer yn cynnwys nifer o adrannau allweddol:

- **Cyflwyniad** - darparu trosolwg o'r rhaglen sy'n cael ei gwerthuso, yr angen am y gwerthusiad a'i bwrpas, a nodau ac amcanion y gwerthusiad.
- **Dulliau** - disgrifio prosesau a gweithgareddau'r gwerthusiad gan gynnwys:
  - Y rhaglen (yr hyn sydd wedi'i werthuso);
  - Dyluniad y gwerthusiad, lleoliad (lle cynhaliwyd y rhaglen/gwerthusiad) a'r cyfranogwyr (meini prawf cynnwys/eithrio; proffil demograffig), ac amserlen;
  - Dulliau gwerthuso a weithredwyd, gan gynnwys beth, sut a phryd y gweithredwyd dulliau, gyda phwy a pha mor aml (ee *X* o gyfweliadau â phobl ifanc oedd yn cymryd rhan yn yr ymyrraeth);
  - Mesuriadau/deunyddiau'r gwerthusiad (ee manylion arolygon a ddefnyddiwyd neu feysydd a archwiliwyd yn amserlen y cyfweliad);
  - Dadansoddiadau data a gynhaliwyd;
  - Cymeradwyaethau gwerthuso a dderbyniwyd (ee adolygiad moesegol), a/neu weithdrefnau a gyflwynwyd i sicrhau bod y gwerthusiad yn foesegol ac yn gyfiawn.
  - Ymgysylltu â'r cyhoedd (ee disgrifio rôl y cyhoedd wrth ddylunio, gweithredu ac adrodd ar y gwerthusiad).
- **Canfyddiadau** - disgrifio canfyddiadau'r gwerthusiad:
  - Gall canfyddiadau'r gwerthusiad proses gynnwys: 1) y cyd-destun a'r cefndir cyn gweithredu'r rhaglen, 2) manylion yr hyn a gynlluniwyd ar gyfer y rhaglen, a 3) yr hyn a weithredwyd mewn gwirionedd yn ystod y cyfnod ymyrraeth.
  - Gall canlyniadau canfyddiadau'r gwerthusiad gynnwys: 1) nodweddion sampl a 2) dadansoddiadau o newidiadau mewn canlyniadau (lle bo hynny'n berthnasol, wedi'u dadgyfuno yn ôl grwpiau).
- **Trafodaeth/crynodeb** - disgrifio canfyddiadau'r gwerthusiad:
  - Lle y bo'n berthnasol, myfyrio ar y gwerthusiad o'r broses a'r canlyniadau. Er enghraifft, a oedd materion yn y broses o weithredu'r rhaglen a allai fod wedi dylanwadu ar ganlyniadau?
  - Myfyrio ar yr adran canfyddiadau yng ngoleuni beth oedd eich nodau a'ch amcanion. Hynny yw, a yw canfyddiadau'r gwerthusiad o'r broses a'r canlyniadau yn cefnogi cyflawni eich nodau a'ch amcanion cychwynnol? Os na chyflawnwyd y rheini, elfen ddysgu yr un mor bwysig yw myfyrio ar pam efallai nad oedd hyn wedi digwydd.
  - Cwmpasu unrhyw gyfyngiadau'r gwerthusiad.
  - Trafod ystyr y canfyddiadau ar gyfer polisi, ymarfer a/neu werthuso ac ymchwil yn y dyfodol. Yn aml, bydd gwerthusiadau yn cynnwys argymhellion i ddiffinio cyfeiriadau'r gwaith yn y dyfodol.
  - Darparu dolenni i wybodaeth allweddol, gan gynnwys cyfeiriadau a lywiodd yr adroddiad, ymyrraeth a/neu werthusiad, a manylion cyswllt ar gyfer y tîm ymyrraeth a/neu werthuso.

I gael arweiniad pellach ar gyhoeddi canfyddiadau ymchwil a gwerthusiadau, ewch i: https://www.equator-network.org/

3.6 Rôl tystiolaeth werthuso wrth atal trais ledled Cymru

Er mwyn atal trais yn effeithiol, mae'n bwysig bod yr ymyriadau a ddarperir yn seiliedig ar dystiolaeth. Yn syml, mae hyn yn golygu ein bod yn gwybod eu bod yn effeithiol wrth atal trais, ac nad ydynt yn achosi niwed pellach. Bydd asesu cyflwyno ac effaith ymyriadau yn llywio datblygiadau pellach i wella eu heffeithiolrwydd wrth atal trais yng Nghymru, ac yn tynnu sylw at bwysigrwydd yr ymyrraeth i lywio penderfyniadau cyllido yn y dyfodol. Gall data gwerthuso roi'r dysgu a'r mewnwelediad canlynol i ni:

- Y gynulleidfa a dargedwyd a'u hanghenion;
- Y cynnwys a'r dull cyflwyno a ddewiswyd, a'r rhesymeg dros hynny;
- Pa mor dda y mae'n cael ei gyflawni, ee beth sy'n gweithio'n dda, i bwy a pham, a'r heriau a brofir;
- Y canlyniadau a gyflawnwyd ar gyfer y garfan a dargedwyd, y gymuned, eich gwasanaethau a'r VPU;
- Unrhyw fylchau o ran cyflwyno'r gwasanaeth y mae angen eu diwallu; ac,
- Y potensial ar gyfer cynyddu'r ymyrraeth a'i chyflwyno'n ehangach, a'r ystyriaethau sydd eu hangen er mwyn i hyn ddigwydd.

Gall gwerthuso gael buddion tymor hir, nid yn unig i'r rheini sy'n ymwneud â'r ymyrraeth, ond hefyd i boblogaethau ehangach. Yn fyd-eang, mae gwerthuso rhaglenni wedi datblygu mewnwelediadau i raglenni allweddol a all atal trais, yn enwedig camdriniaeth plant, gan gynnwys rhaglenni rhianta ac ymweld â'r cartref (15).

Yn ogystal â'r dysgu o'r gwerthusiad o'r ymyriadau, bydd angen tystiolaeth i lywio'r gwerthusiad ehangach o'r VPU. Mae gwerthusiadau annibynnol o'r VPU yn cael eu cynnal i asesu'r dull system gyfan o atal trais. Mae'r ymyriadau a ddarperir yn rhan annatod o'r ymateb system gyfan i atal trais yng Nghymru.

4. Rhestr wirio ar gyfer cynllunio gwerthusiad

Mae'r rhestr wirio isod yn darparu rhestr o gwestiynau allweddol i weithredwyr gwasanaeth/ymyrraeth eu hateb i ddatblygu cynllun gwerthuso ar gyfer eu gwasanaeth neu ymyrraeth atal trais[12]. Cyfeiriwch at Adran 3 am ragor o wybodaeth. Mae'r tîm VPU hefyd ar gael i gefnogi partneriaid VPU i werthuso eu gwasanaeth neu ymyrraeth gan ddefnyddio'r pecyn cymorth gwerthuso fel canllaw.

4.1 Datblygu dealltwriaeth gynhwysfawr o'r ymyrraeth

1. Beth sy'n cael ei gyflwyno? *A yw'n ymyrraeth, rhaglen, gwasanaeth neu brosiect, a pha gynnwys sy'n cael ei gyflwyno. Bydd cael disgrifiad o'r hyn rydych chi'n ei werthuso ac unrhyw ddeunyddiau yn eich helpu i ddeall pa elfennau sydd angen eu hasesu a sut i'w hasesu.*
2. I bwy y mae'n cael ei gyflwyno? *Beth yw'r boblogaeth darged a pha mor fawr yw'r boblogaeth honno.*
3. Ble mae'n cael ei gyflwyno? *Lleoliad a safle'r cyflwyno.*
4. Pryd mae'n cael ei gyflwyno? *Yr amserlenni, gan gynnwys nifer a hyd y sesiynau.*
5. Sut mae'n cael ei gyflwyno? *Mecanwaith cyflwyno (ee ar-lein, wyneb yn wyneb) a chan bwy, a gyda pha adnoddau. Ystyriwch pwy yw'r partneriaid mewnol/allanol allweddol. Rhestrwch yr holl adnoddau sydd eu hangen i roi'r ymyrraeth ar waith (ee amser staff, deunyddiau).*
6. Pam mae'n cael ei gyflwyno? Beth yw'r canlyniadau a ragwelir? *Beth oedd y rhesymeg dros gyflwyno hyn a beth mae am ei gyflawni? Beth yw nod ac amcanion cyffredinol yr ymyrraeth? Pa ganlyniadau tymor byr a/neu dymor hir rydych chi'n eu rhagweld, a pham?*
7. Beth yw allbynnau'r ymyrraeth? *Y cynhyrchion (ee nifer y bobl a atgyfeiriwyd, nifer y bobl sy'n cwblhau ymyriadau ac ati)*
8. Ydych chi'n rhagweld unrhyw ganlyniadau niweidiol?

[12] Mae'r rhestr wirio yn seiliedig ar restrau gwirio fframweithiau gwerthuso presennol sydd ar gael ar gyfer materion iechyd cyhoeddus eraill (ee 2).

Gall cwblhau'r cwestiynau hyn gynorthwyo i ddatblygu model rhesymeg ar gyfer y gwasanaeth/ymyrraeth. Mae datblygu model rhesymeg yn rhan allweddol o ddatblygu cynllun gwerthuso a bydd yn arwain yr amcan gwerthuso a'r data a gesglir. Darperir templed o fodel rhesymeg yn adran 4.4.

4.2 Asesu ymarferoldeb gwerthusiad a diffinio'r ffocws

9. A oes tystiolaeth bresennol ar gyfer y gwasanaeth/ymyrraeth? Sut mae hyn yn gysylltiedig â'ch gwasanaeth/ymyrraeth? *Mae tystiolaeth ar atal trais ac ymatebion ar gael yn:* www.violencepreventionwales.co.uk/research-evidence, https://apps.who.int/violence-info/ a www.who.int/violence_injury_prevention/violence/cy/	
10. A yw'r gwasanaeth/ymyrraeth yn cwrdd ag un o'r meini prawf canlynol i gyfiawnhau gwerthusiad?	
Buddsoddwyd amser, arian a/neu adnoddau sylweddol	
Mae posibilrwydd o risg neu niwed	
Mae'r gwasanaeth/ymyrraeth yn cynrychioli dull newydd neu arloesol	
Mae'r gwasanaeth/ymyrraeth yn destun craffu neu'n flaenoriaeth wleidyddol uchel;	
Mae bwlch mewn gwasanaethau neu wybodaeth am sut i fynd i'r afael â phroblem neu ddarparu gwasanaethau effeithiol i boblogaeth benodol	
Os na, disgrifiwch y cyfiawnhad dros werthusiad isod:	
11. Pa gyllideb, adnoddau a sgiliau sydd gennych ar gael ar gyfer gwerthusiad?	
12. Beth yw'r cwestiynau allweddol y byddech chi am i werthusiad eu hateb? Ystyriwch y fframwaith gwerthuso Re-AIM - a ydych chi am archwilio cyrhaeddiad, effeithiolrwydd, mabwysiadu, gweithredu a/neu gynnal gwasanaeth/ymyrraeth (gweler y pecyn cymorth am fanylion pellach)	
13. Pa ddata sydd eisoes yn bodoli a pha ddata ychwanegol sydd eu hangen ar gyfer y gwerthusiad?	
14. Pa fethodoleg fyddai'n addas i'r gwerthusiad? *Ee dulliau ymchwil ansoddol a meintiol. Gall gwerthusiadau gynnwys un fethodoleg, ond yn ddelfrydol bydd yn cynnwys cymysgedd o ddulliau i ateb cwestiynau'r gwerthusiad.*	
15. A allwch gynnwys cleifion a'r cyhoedd wrth gyd-ddylunio, cyflwyno a chynhyrchu'r gwerthusiad? Os felly, sut?	

16. Pa fesurau canlyniadau y gellid eu harchwilio mewn gwerthusiad? *Cyfeiriwch at y model rhesymeg a'r fframwaith canlyniadau*
17. Pa ystyriaethau llywodraethu neu foesegol y mae angen i chi eu harchwilio? *Lle mae ar gael, dylai gwerthusiad sy'n cynnwys pobl gael cymeradwyaeth gan bwyllgor adolygu moeseg, cyn ei weithredu. Dylid hefyd ystyried cymeradwyaethau eraill a allai fod yn ofynnol.*
18. Sut y byddwch chi'n lleihau'r risg o niwed i gyfranogwyr gwerthuso, ymchwilwyr a gwasanaethau? *A ydych wedi ystyried: anghenion cyfranogwyr agored i niwed (ee llythrennedd, p'un a oes angen seibiannau arnynt o bosibl); a yw cyfranogwyr wedi profi trawma neu o bosibl fod arnynt anghenion diogelu cyfredol a allai ddod i'r amlwg wrth gymryd rhan; profiad ymchwilwyr sy'n gweithredu'r gwerthusiad (a oes angen hyfforddiant diogelu arnynt a goruchwyliaeth neu gefnogaeth arall); ac, a yw ymchwilwyr wedi cael gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.*

4.3 Casglu, dadansoddi, adrodd a lledaenu data

19. Pa ddulliau a mesurau y byddwch chi'n eu defnyddio i gynnal gwerthusiad proses (os yw'n berthnasol)? Sut y byddwch chi'n mesur ffyddlondeb, dogn a chyrhaeddiad? Gall data sylfaenol ar y boblogaeth ymyrraeth helpu i nodi cyrhaeddiad ymyrraeth a gellir eu defnyddio hefyd fel data sylfaenol mewn gwerthusiad canlyniad
20. Pa ddulliau a mesurau y byddwch chi'n eu defnyddio i gynnal gwerthusiad canlyniad (os yw'n berthnasol)? *Ystyriwch y model rhesymeg, y data sydd eisoes ar gael ac ymarferoldeb casglu data ychwanegol. Beth yw mesurau'r canlyniadau? A oes mesurau eraill y mae angen eu casglu (ee demograffeg). A oes unrhyw offer sy'n bodoli eisoes sy'n mesur y canlyniadau rydych chi am eu cyflawni?*
21. A fyddwch chi'n cymharu canlyniadau yn eich grŵp ymyrraeth â grŵp arall? Os felly, pwy?
22. Gyda phwy fyddwch chi'n rhannu canfyddiadau gwerthuso a sut? *Mae'n arfer da rhannu canfyddiadau gwerthuso gyda chyfranogwyr yr astudiaeth a phartneriaid eraill sydd â diddordeb. Ystyriwch pwy fydd yn rhannu canfyddiadau a sut (ee ar lafar, mewn adroddiad).*

4.4 Templed o fodel rhesymeg

Mewnbynnau	Gweithgareddau	Allbynnau	Canlyniadau tymor byr	Effeithiau tymor hwy
Adnoddau sy'n ofynnol i ddarparu'r gwasanaeth / ymyrraeth (Cwestiwn 5)	Pethau allweddol sy'n cael eu cyflwyno (Cwestiwn 1)	Y cynhyrchion (ee nifer y bobl a atgyfeiriwyd/sy'n cwblhau ymyriadau) (Cwestiwn 7)	Y canlyniadau sylfaenol ac eilaidd sy'n digwydd yn y tymor byr (Cwestiwn 6/8)	Y newidiadau sy'n digwydd o ganlyniad i'r canlyniadau tymor byr (Cwestiwn 6/8)

5. Geirfa

Gwerthusiad proses: (a elwir weithiau'n werthusiad ffurfiannol) - yn dweud wrthym beth sy'n gweithio'n dda ynglŷn â chyflwyno rhaglen neu wasanaeth a'r hyn nad yw'n gweithio'n dda.

Gwerthusiad canlyniadau/effaith: (a elwir hefyd yn werthusiad crynodol) - yn dweud wrthym pa mor effeithiol yw rhaglen neu wasanaeth. Mae'r math hwn o werthusiad yn mesur canlyniadau gweithgaredd i bennu i ba raddau y mae'r amcanion yn cael eu cyflawni.

Gwerthusiad system: defnyddir i asesu effaith ehangach rhaglen neu wasanaeth ar y system (megis sefydliadau eraill, polisïau a'r amgylchedd).

Gwerthusiad ffurfiannol: gweler gwerthusiad proses.

Gwerthusiad crynodol: gweler gwerthusiad canlyniadau/effaith.

Model rhesymeg: cynrychiolaeth graffig o raglen neu wasanaeth, yn rhoi manylion y mewnbynnau, y gweithgareddau, yr allbynnau a'r nodau a fwriadwyd yn eu trefn.

Theori newid: yn disgrifio sut y bwriedir i'r ymyrraeth weithio a sicrhau newid i'r unigolion, grwpiau a chymunedau y mae wedi'u targedu atynt.

Ymyrraeth atal trais sylfaenol: ymyrraeth sy'n canolbwyntio ar atal trais cyn iddo ddigwydd.

Ymyrraeth atal trais eilaidd: ymyrraeth sy'n canolbwyntio ar drin niwed uniongyrchol sy'n deillio o drais, ac sy'n atal trais rhag digwydd eto.

Ymyrraeth atal trais trydyddol: ymyrraeth sy'n ceisio mynd i'r afael ag effeithiau tymor canolig a thymor hwy trais, gan gynnwys adsefydlu.

Ymyriadau yn seiliedig ar le: ymyriadau sy'n mynd i'r afael â mater neu faterion cymhleth mewn lleoliad daearyddol neu leoliad arall.

6. Cyfeiriadau

1. Roberts K, Cavill N, Rutter H (2009). Standard Evaluation Framework for Weight Management Interventions. National Obesity Observatory.
2. Public Health England (2018a). Sexual Health, Reproductive Health and HIV: Evaluation Framework Workbook (ar-lein). Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/717640/SHRH_Evaluation_Workbook_Form.pdf
3. Houlston R, Devereux G, Bell L (2018). Safe and Well Standard Evaluation Framework Pilot Report. Public Health England/National Fire Chiefs Council.
4. Springett J. Issues in Participatory Evaluation. In: Minkler M, Wallerstein N, editors (2003). Community Based Participatory Research for Health. New York: Jossey-Bass. p.263–86
5. Patton MQ (2017). Principles-focused evaluation: the guide. New York: Guilford Press.
6. Public Health England (2018b). Outcome Evaluation Guidance (Ar-lein). Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/evaluation-in-health-and-well-being-overview/outcome-evaluation
7. Public Health England (2019). Guidance. Introduction to Evaluation (ar-lein). Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/evaluation-in-health-and-well-being-overview/introduction-to-evaluation#introduction
8. Davies S (nd). Place-Based Approaches: Characteristics and Learning (ar-lein). Ar gael yn: https://anewdirection.org.uk/research/place-based-approaches-characteristics-and-learning
9. Twnnel SC, Rogers PJ (2011). Purposeful Program Theory: Effective Use of Theories Of Change And Logic Models. San Francisco: Jossey-Bass/Wiley.
10. World Health Organization (2016(. Global Plan of Action to Strengthen the Role of the Health System Within a National Multisectoral Response to Address Interpersonal Violence, in Particular Against Women and Girls, and Against Children. Geneva: World Health Organization.
11. Hughes K et al (2017). The Effect of Multiple Adverse Childhood Experiences on Health: a Systematic Review and Meta-Analysis. *The Lancet. Public health*, 2(8):e356–e366.
12. Bellis MA et al (2015). *Profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a'u heffaith ar ymddygiad sy'n niweidio iechyd yn y boblogaeth oedolion yng Nghymru. Wrecsam: Iechyd Cyhoeddus Cymru.*
13. Hughes K et al (2017). *Ffynonellau Cydnerthedd a'u Cysylltiadau Lliniarol gyda'r Niwed sy'n cael ei achosi gan Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. Wrecsam: Iechyd Cyhoeddus Cymru.*
14. Jones L (2014). Improving Efforts to Prevent Children's Exposure to Violence: a Handbook for Defining Programme Theory and Planning for Evaluation in The Evidence-Based Culture. Geneva: World Health Organization.
15. UNICEF (2018). INSPIRE Indicator Guidance and Results Framework Ending Violence Against Children: How to define and measure change (ar-lein). Ar gael yn: https://www.unicef.org/media/66896/file/INSPIRE-IndicatorGuidance-ResultsFramework.pdf
16. Women's Aid (2020). Research Integrity Framework on Domestic Violence and Abuse (ar-lein). Ar gael yn: https://www.welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2020/11/Research-Integrity-Framework-RIF-on-Domestic-Violence-and-Abuse-DVA-November-2020.pdf
17. Egan M et al. 2019. NIHR SPHR Guidance on Systems Approaches to Local Public Health Evaluation. Part 1: Introducing systems thinking. London: National Institute for Health Research School for Public Health Research.

7. Atodiadau

7.1 Dolenni i adnoddau ychwanegol

Gwybodaeth am asesiadau gwerthuso ar gael yn: http://whatworksscotland.ac.uk/wp-content/uploads/2015/07/WWS-Evaluability-Assessment-Working-paper-final-June-2015.pdf

Gwybodaeth am ymchwil cydgynhyrchu ar gael yn: www.invo.org.uk/posttypepublication/guidance-on-co-producing-a-research-project/

Gwybodaeth am ddulliau gwerthuso ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/evaluation-in-health-and-well-being-overview/evaluation-methods

Canllawiau ar ddatblygu a gwerthuso ymyriadau cymhleth ar gael trwy'r Cyngor Ymchwil Feddygol a'r Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Iechyd, ee:

- Gwerthuso prosesau ymyriadau cymhleth: www.bmj.com/content/350/bmj.h1258
- Beth i'w ystyried wrth gynllunio gwerthusiad system:https://sphr.nihr.ac.uk/wp-content/uploads/2018/08/NIHR-SPHR-SYSTEM-GUIDANCE-PART-2-v2-FINALSBnavy.pdf

Y TIDieR (templed ar gyfer disgrifio ac efelychu ymyrraeth) - rhestr wirio a chanllaw yn darparu gwybodaeth ar adrodd am yr hyn yr oedd ymyrraeth yn ei olygu, i gefnogi eraill i ddeall yr ymyrraeth a lle y bo'n berthnasol ei ailadrodd, neu ei ddatblygu ymhellach: https://www.bmj.com/content/348/bmj.g1687

Llawlyfr ar gyfer cefnogi gwerthuso rhaglenni camdriniaeth plant ar gael yn: http://www.unh.edu/ccrc/evaluation-videos/Handbook-to-Support-Evaluation-of-Child-Maltreatmen-Prevention-Programmes..pdf

Mae fframwaith uniondeb ymchwil ar drais yn y cartref ar gael drwy Cymorth i Fenywod yn: https://www.welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2020/11/Research-Integrity-Framework-RIF-on-Domestic-Violence-and-Abuse-DVA-November-2020.pdf

7.2 Trosolwg o wahanol fathau o werthusiad

Mathau o werthusiad	Pwrpas y gwerthusiad	Cwestiynau enghreifftiol y mae'r gwerthusiad yn ceisio eu hateb	Methodoleg enghreifftiol	Cyfranogwyr y gwerthusiad/carfan(nau) targed
Asesiad o anghenion	Cynhelir asesiad o anghenion i helpu i lywio datblygiad ymyrraeth. Mae asesiad o anghenion yn casglu gwybodaeth am y gweithgareddau y mae angen eu cyflwyno a sut orau i'w chyflwyno.	• Beth yw'r bylchau yn y darpariaethau gwasanaeth cyfredol? • Ar bwy mae angen y rhaglen? • Pa mor fawr yw'r angen hwnnw? • Beth yw'r ffordd orau o gyflwyno'r angen hwnnw?	• Arsylwadau • Arolygon • Cyfweliadau/grwpiau ffocws • Adolygiad o ddogfennau	• Comisiynwyr, gweithwyr iechyd proffesiynol, pobl sy'n cyrchu gwasanaethau cyfredol, cymunedau y mae'r mater yn effeithio arnynt.
Gweithredu/ymarferoldeb	Mae hon yn fersiwn lai o werthusiad ar raddfa lawn i wirio ymlaen llaw a fydd y gwerthusiad yn gweithio. Bydd hyn yn caniatáu ichi brofi dyluniad yr astudiaeth, gan gynnwys y deunyddiau a ddefnyddir (ee arolygon), prosesau recriwtio a chasglu data. Gall hyn hefyd asesu ffyddlondeb yr ymyrraeth a'r potensial i lwyddo, yn enwedig ymyriadau sydd newydd eu sefydlu (ee profi cyflwyno rhaglen hyfforddi newydd i garfan fach cyn ei chyflenwi'n ehangach a'i gwerthuso'n llawn).	• A ellir cynnal dyluniad, gweithdrefnau ac ymyrraeth yr astudiaeth? • A yw dyluniad, gweithdrefnau ac ymyrraeth yr astudiaeth yn briodol o safbwynt y cyfranogwr? • A oes unrhyw newidiadau i gyflwyno ymyrraeth cyn ei gyflwyno?	• Arolygon • Cyfweliadau	• Pobl sy'n derbyn yr ymyrraeth. • Pobl sy'n cyflwyno'r ymyrraeth.

Mathau o werthusiad	Pwrpas y gwerthusiad	Cwestiynau enghreifftiol y mae'r gwerthusiad yn ceisio eu hateb	Methodoleg enghreifftiol	Cyfranogwyr y gwerthusiad/carfan(nau) targed
Canlyniad	I benderfynu a oedd yr ymyrraeth yn llwyddiannus ac wedi cael yr effaith a ddymunir ar y canlyniad a dargedwyd. Mae hyn yn mesur a weithiodd yr ymyrraeth i wneud y newidiadau disgwyliedig, fel yr amlinellwyd gan y model rhesymeg, ee gostyngiadau mewn troseddau cyllell a gofnodwyd.	• Pa ganlyniadau a gyflawnwyd/na chyflawnwyd? • I ba raddau y cyflawnwyd y canlyniadau hynny? • A allwn briodoli'r canlyniadau hynny i'r rhaglen/ymyrraeth?	• Arolygon cyn ac ar ôl ymyrraeth/rhaglen • Data gwasanaeth/sefydliad (nifer yr atgyfeiriadau, galw o ran yr heddlu)	• Pobl sy'n derbyn yr ymyrraeth.
Effaith	I asesu a yw'r ymyrraeth wedi arwain at newid, a beth yw effeithiau cyffredinol yr ymyrraeth, yn fwriadol ac yn anfwriadol. Mae gwerthusiad effaith yn mesur effaith yr ymyrraeth ar y boblogaeth a fwriadwyd, ee gwell ymdeimlad o ddiogelwch yn y gymuned yn dilyn gostyngiad mewn troseddau cyllell.	• Pa effaith gafodd y rhaglen/ymyrraeth ar feddyliau, ymddygiad a chyflwr emosiynol unigolyn? • Beth yw effeithiau tymor hwy'r rhaglen/ymyrraeth? • Beth oedd effeithiau bwriadedig/anfwriadol ac uniongyrchol/anuniongyrchol y rhaglen/ymyrraeth?	• Profion cyn ac ar ôl yr arolwg/seicometrig (ee mesur iechyd meddwl a llesiant) gyda dilyniant tymor hwy (ee 6 + mis) • Cyfweliadau/grwpiau ffocws gyda dilyniant tymor hwy (ee 6 + mis).	• Pobl sy'n derbyn yr ymyrraeth. • Poblogaeth ehangach (ee aelodau o'r teulu, ffrindiau, y gymuned ehangach).

Mathau o werthusiad	Pwrpas y gwerthusiad	Cwestiynau enghreifftiol y mae'r gwerthusiad yn ceisio eu hateb	Methodoleg enghreifftiol	Cyfranogwyr y gwerthusiad/carfan(nau) targed
Proses	Mae'r math hwn o werthusiad yn ceisio arwain gwelliannau i'r ymyrraeth. Mae'n asesu pa mor effeithiol y gweithredwyd ymyrraeth ac a gafodd ei gyflawni yn ôl y bwriad. Bydd hyn yn helpu i nodi cryfderau a gwendidau'r ymyrraeth, a pha welliannau sydd eu hangen.	• Pa mor dda y cyflwynwyd y rhaglen/ymyrraeth? • Pa mor dda yr ymgysylltodd y garfan a dargedwyd? • Beth a gyflawnwyd yn dda a beth sydd angen ei wella? • Pa mor effeithiol/effeithlon y cyflwynwyd y rhaglen/ymyrraeth? • Pa ystyriaethau sydd eu hangen i gynyddu/ehangu'r rhaglen?	• Cyfweliadau â rhanddeiliaid, hwyluswyr rhaglenni/ymyrraeth • Cyfweliadau/arolwg gyda'r garfan a dargedwyd	• Pobl sy'n derbyn yr ymyrraeth. • Pobl sy'n cyflwyno'r ymyrraeth. • Pobl sy'n comisiynu'r ymyrraeth • Unrhyw bartneriaid allweddol eraill sy'n ymwneud â dylunio/cyflwyno
Dadansoddiad cost a budd/economaidd	Yn asesu gwerth am arian y rhaglen/ymyrraeth. Mae hyn yn mesur y gwerth a gafwyd o'r rhaglen a chost yr adnoddau i'w rhoi ar waith, yn erbyn y costau pe na bai'r rhaglen/ymyrraeth yn cael ei chyflwyno.	• Beth yw gwerth effaith y rhaglen/ymyrraeth? • Pa adnoddau a ddefnyddiwyd yn y rhaglen/ymyrraeth a faint oedd y gost? • Pa mor effeithiol mae adnoddau'n cael eu defnyddio? • A oes ffyrdd gwell o ddefnyddio'r adnoddau a ddyrannwyd?	• Dadansoddiad o daflenni cyllideb, gwariant, oriau staff, deunyddiau. • Dadansoddiad o ddata canlyniadau posibl pe na bai'r rhaglen/ymyrraeth yn cael ei chyflwyno ee cost gwariant iechyd, yr heddlu a gofal cymdeithasol fesul ymosodiad trosedd cyllell.	• Data eilaidd

Mathau o werthusiad	Pwrpas y gwerthusiad	Cwestiynau enghreifftiol y mae'r gwerthusiad yn ceisio eu hateb	Methodoleg enghreifftiol	Cyfranogwyr y gwerthusiad/carfan(nau) targed
Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad (SROI)	Yn amcangyfrif y gwerth cymdeithasol sy'n cael ei greu gan raglen/ymyrraeth, gan gynnwys y ffactorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.	• Pa newidiadau a brofodd rhanddeiliaid (cadarnhaol a negyddol)? • Pwy arall sydd wedi cael eu heffeithio gan y newidiadau? • A allwn briodoli'r newid i'r rhaglen/ymyrraeth? • Am ba hyd y bydd y newidiadau yn para?	• Dadansoddiad o daflenni cyllideb, gwariant, oriau staff, deunyddiau. • Dadansoddiad o ddata canlyniadau posibl pe na bai'r rhaglen/ymyrraeth yn cael ei chyflwyno ee cost gwariant iechyd, yr heddlu a gofal cymdeithasol fesul ymosodiad trosedd cyllell. • Cyfweliadau/grwpiau ffocws • Arolygon	• Pobl sy'n derbyn yr ymyrraeth. • Pobl yr effeithiwyd arnynt gan y newidiadau a ddaeth yn sgil yr ymyrraeth (ee aelodau o'r teulu, ffrindiau, y gymuned ehangach). • Sefydliadau ehangach y mae'r newidiadau yn effeithio arnynt (ee sefydliadau statudol ac anstatudol).

Mathau o werthusiad	Pwrpas y gwerthusiad	Cwestiynau enghreifftiol y mae'r gwerthusiad yn ceisio eu hateb	Methodoleg enghreifftiol	Cyfranogwyr y gwerthusiad/carfan(nau) targed
Systemau	Asesu effaith ehangach cyflwyno rhaglen neu wasanaeth, a rhoi dealltwriaeth o sut mae gwahanol asiantau (megis sefydliadau eraill, yr amgylchedd, polisïau) yn gweithredu ar effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd rhaglen ac yn dylanwadu arnynt.	• Pa effaith y mae'r rhaglen wedi'i chael ar gyflwyno a chanlyniadau sefydliadau eraill (a sut)? • Pa effaith mae'r rhaglen wedi'i chael ar yr amgylchedd ehangach? (ee a yw'r rhaglen wedi effeithio'n anuniongyrchol ar yr amgylchedd cymunedol/corfforol lle mae ymyrraeth yn cael ei darparu?) • A yw'r rhaglen wedi effeithio ar gysylltiadau rhwng sefydliadau eraill (a sut)? • A yw'r rhaglen wedi cael effaith ar fframweithiau/polisïau rheoleiddio/ cyfreithiol ehangach (a sut)?	• Cyfweliadau â rhanddeiliaid o wahanol rannau o'r systemau • Arolygon i ddeall newidiadau cyn ac ar ôl, a ddadansoddwyd o fewn persbectif systemau. • Mapio cysyniadau - ymgysylltu â rhanddeiliaid i ddeall problemau / heriau a chyflwyno cyfleoedd i newid. • Dadansoddiad rhwydwaith - mapio sut mae gwahanol sefydliadau'n cysylltu.	• Pobl sy'n cyflwyno'r ymyrraeth. • Pobl sy'n comisiynu'r ymyrraeth • Unrhyw bartneriaid allweddol eraill sy'n ymwneud â dylunio/cyflwyno • Sefydliadau ehangach y mae'r newidiadau yn effeithio arnynt (ee sefydliadau statudol ac anstatudol).

7.3 Astudiaeth achos o werthusiad proses a chanlyniadau (ymyrraeth ffuglennol)

Ym mae Caerdydd, amlygodd wybodaeth leol gynnydd sydyn mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol (ASB) yn cynnwys bechgyn a merched ifanc 13-20 oed. Cafwyd nifer o gwynion gan y gymuned ynghylch aflonyddwch sŵn, yfed dan oed, ymladd, fandaliaeth, taflu sbwriel a dosbarthiad posibl cyffuriau. Ymatebodd yr heddlu sawl gwaith i wasgaru cynulliadau grŵp a chynnal stopio a chwilio. Fodd bynnag, roedd gan swyddogion yr heddlu bryderon bod pobl ifanc a allai fod yn cael eu hecsbloetio, ond na fyddent yn ymgysylltu â'r swyddogion a ymatebodd. Roedd timau plismona yn pryderu y gallai cynyddu patrolau'r heddlu yn yr ardal symud y bobl ifanc i ardaloedd eraill, neu arwain at iddynt gael eu hecsbloetio mewn lleoedd mwy preifat.

Mewn ymateb, cyd-ariannodd Heddlu De Cymru ac awdurdod lleol Caerdydd 'Dîm Ymgysylltu Ieuenctid' (YET), lle bu gweithiwr ieuenctid a PCSO yn patrolio'r ardal gyda'i gilydd i ymgysylltu â'r bobl ifanc oedd mewn perygl o gael eu hecsbloetio, tra hefyd yn ceisio adnabod unrhyw anghenion diogelu a lleihau ASB. Roedd y tîm yn amlwg yn bresennol o'r prynhawniau i'r nosweithiau, ac yn cymryd amser i ryngweithio gyda'r bobl ifanc, deall mwy amdanynt, darparu gwybodaeth a chyngor, a'u cyfeirio at grwpiau cymunedol / clybiau ieuenctid lleol. At hynny, lle bo angen, rhoddodd yr YET atgyfeiriadau diogelu yn eu lle a rhannu gwybodaeth gyda'r gwasanaethau lleol a oedd eisoes yn ymwneud â'r bobl ifanc, a gweithiodd gyda'r ysgolion/colegau a Swyddogion Cyswllt Ysgolion yr Heddlu i godi pryderon am weithgarwch y disgyblion hyn yn y gymuned. Mynychodd yr YET gyfarfodydd lleol hefyd ac ymgysylltu ag aelodau'r gymuned i wrando ar y problemau y maent yn eu cael, codi ymwybyddiaeth o'u pryderon, rhannu sut mae'r heddlu a'r awdurdod lleol yn mynd i'r afael â'r problemau a rhoi cyngor ar yr hyn y dylent ei wneud pan fydd y bobl ifanc yn yr ardal.

Cafodd y tîm YET ei dreialu i ddechrau am ddau fis, gyda'r bwriad o barhau i ariannu a chynyddu'r YET i ardaloedd eraill yn yr heddlu. Fodd bynnag, er mwyn i'r heddlu barhau i'w ariannu, a sicrhau cefnogaeth hirdymor gan awdurdodau lleol eraill yn Ne Cymru, comisiynwyd gwerthusiad ymyrraeth.

Gwerthusiad canlyniadau: - i asesu a gyflawnodd yr YET y canlyniadau a ddymunwyd. Er enghraifft:

- Gostyngiadau mewn digwyddiadau a gofnodwyd o ASB.
- Gostyngiadau yn y pryderon yr adroddir amdanynt gan y gymuned.
- Nodwyd plant sydd mewn perygl o gael eu hecsbloetio a chymryd rhan mewn trais.
- Mwy o atgyfeiriadau diogelu.
- Mwy o fynediad at gefnogaeth gan wasanaethau, a mynediad at raglenni ymyrraeth neu ddargyfeiriol i bobl ifanc y nodwyd eu bod mewn perygl.

Bydd gwerthusiad canlyniadau yn ceisio asesu i ba raddau y cyflawnwyd y canlyniadau hyn, pa mor effeithlon ac effeithiol y cawsant eu cyflawni, ac i ba raddau y gellir priodoli'r canlyniadau hyn i'r YET.

Gwerthusiad proses: - i asesu sut mae'r YET wedi'i weithredu a pha mor effeithiol y mae'n gweithredu i gyflawni'r canlyniadau a ddymunwyd. Byddai hyn yn ystyried:

- Profiad y rhai sy'n ymwneud â'r YET, gan gynnwys yr hyn sydd wedi gweithio'n dda, yr heriau a wynebwyd a'r gwelliannau pellach sydd eu hangen.
- Profiad y rhai sy'n derbyn cefnogaeth gan yr YET, gan gynnwys plismona, pobl ifanc, y gymuned, ysgolion a gwasanaethau gofal cymdeithasol. Byddai hyn yn archwilio eu canfyddiadau o'r YET a'u rôl yn y gymuned, hygyrchedd y gefnogaeth, pa mor dda y maent wedi ymgysylltu â'r gynulleidfa wedi'i thargedu, rhwystrau i ymgysylltu â'r YET a chyfleoedd pellach i wella eu rôl.
- Ystyriaethau sydd eu hangen ar gyfer cyflwyno yn y dyfodol a chyflwyno'r YET i feysydd eraill.

7.4 Astudiaeth achos o werthusiad systemau

Datblygu cynllun monitro a gwerthuso ar gyfer VPU Cymru

Bydd y gwerthusiad o VPU Cymru yn mabwysiadu dull systemau o werthuso, fel yr argymhellir ar gyfer cynnal gwerthusiadau o ddulliau seiliedig ar le (9). Bydd y gwerthusiad yn tynnu ar ganllaw gwerthuso systemau a gynhyrchwyd gan Egan et al (17). Defnyddir tystiolaeth bresennol i lywio datblygiad a gweithrediad rhaglenni atal trais. Pan fydd ymyriadau newydd yn cael eu datblygu a'u profi, neu pan fydd ymyriadau presennol yn cael eu haddasu i leoliadau neu grwpiau poblogaeth newydd, bydd partneriaid yn cael eu cefnogi i weithredu gwerthusiad cadarn cyn cynyddu. Bydd monitro effeithiau rhaglenni dros amser yn sicrhau bod adnoddau'n cael eu buddsoddi mewn rhaglenni sy'n gweithio i Gymru, bod canlyniadau anfwriadol a allai fod yn niweidiol yn cael eu lleihau, a bod rhaglenni'n cael eu gweithredu gan ystyried y gymuned leol a'r cyd-destun. Bydd y gwerthusiad yn samplu cyfranogwyr o wahanol rannau o'r system i archwilio effeithiau'r VPU ar berthnasoedd a newid, ac yn deall sut mae gwahanol rannau o'r system yn effeithio ar ei gilydd.

Er enghraifft, mae cynllun monitro a gwerthuso Cymru yn cynnwys:

- Datblygu model rhesymeg a theori newid: Ym mis Mawrth 2020, cynhaliwyd digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid i gasglu data i lywio datblygiad model rhesymeg VPU Cymru a theori newid. Fe wnaeth cynrychiolwyr o ystod o sefydliadau (gan gynnwys cyllidwyr rhaglenni, datblygwyr a darparwyr gwasanaeth) ddarparu gwybodaeth am y gweithgareddau a'r canlyniadau arfaethedig sy'n gysylltiedig â VPU Cymru. Dadansoddwyd y wybodaeth hon yn thematig a'i defnyddio [gan dîm ymchwil LJMU] i ddatblygu model rhesymeg cadwyn canlyniadau. Yna cafodd y model rhesymeg ei fireinio mewn cydweithrediad â'r VPU a'i gyhoeddi yn nogfen strategaeth VPU Cymru. Cyflwynir y theori newid mewn ffigur isod. Gan weithio mewn partneriaeth â VPU Cymru, defnyddiwyd y model rhesymeg i nodi dangosyddion i fesur y canlyniadau, ac archwilir y rhain yn fanylach yn Atodiad 1.
- Datblygu llinell sylfaen: Mae VPU Cymru wedi cynnal asesiad anghenion strategol i asesu lefel yr angen sy'n ymwneud â thrais ieuenctid difrifol yn Ne Cymru. Mae'r asesiad hwn yn darparu data sylfaenol ar gyfer y gwerthusiad.
- Casglu data monitro a gwerthuso rhaglenni arferol: Mae gan VPU Cymru System Gwyliadwriaeth Trais gynhwysfawr (WVSAS) sy'n cyfuno data gan yr Heddlu, Ambiwlans ac Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys i gael darlun cyfannol o drais ieuenctid difrifol yn Ne Cymru. Bydd tueddiadau a phatrymau yn y data hyn ar gael ac yn cael eu casglu dros amser i ddeall lle mae newidiadau wedi digwydd.
- Diffinio'r dulliau gwerthuso: Bydd y dulliau gwerthuso'n cynnwys:
    - Dadansoddiad rhwydwaith: i fesur gwelliannau mewn dulliau systemau cyfan cydweithredol o atal trais yng Nghymru a'r sefydliadau sy'n blaenoriaethu trais fel mater iechyd cyhoeddus. Bydd y dull hwn yn mapio sut mae gwahanol bobl neu sefydliadau yn cysylltu â'i gilydd i nodi dylanwadwyr allweddol yn y system (y bobl neu'r sefydliadau sydd â mwy o ddylanwad nag eraill) ac yn nodi a yw

rhai rhannau o'r rhwydwaith yn ynysig neu'n gweithio mewn seilo. Gellir mapio ac ailadrodd y data dros amser i nodi newid.

- Mapio cysyniadau: i gasglu gwybodaeth am y rhaglenni ataliol sylfaenol, eilaidd a thrydyddol sy'n seiliedig ar dystiolaeth a gyflwynir yng Nghymru a deall a yw llwybrau atgyfeiriadau yn gynhwysfawr ac yn cael eu deall gan bartneriaid. Defnyddir y dull hwn hefyd i nodi problemau, heriau ac atebion trwy ymgysylltu â rhanddeiliaid.
- Ymchwil ansoddol gyda lens systemau: i archwilio effaith VPU Cymru ar berthnasoedd a newid, a deall sut mae gwahanol rannau o'r system yn effeithio ar ei gilydd. Bydd y dull hwn yn casglu data ansoddol i ddeall teimladau o ddiogelwch ymysg plant, pobl ifanc, rhieni, teuluoedd a chymunedau, trwy gasglu mewnwelediad ar wahanol adegau o weithredu'r strategaeth. Bydd hefyd yn casglu data ansoddol i ddeall canlyniadau seico-gymdeithasol, iechyd, addysg a chymdeithasol-economaidd ar wahanol adegau o weithredu'r strategaeth.
- Addasiad o ddulliau gwerthuso traddodiadol gyda phersbectif systemau: i ddeall newidiadau cyn ac ar ôl ymyriadau VPU unigol, wedi'u dadansoddi o fewn persbectif systemau. Bydd y dull hwn yn defnyddio gwybodaeth i fesur lleihad mewn trais a ffactorau risg cysylltiedig (a chynnydd mewn ffactorau amddiffynnol).

PHI | Public Health Institute

LIVERPOOL JOHN MOORES UNIVERSITY

Wales Violence Prevention Unit, Market Chambers,
5-2 St Mary's Street, Cardiff, CF10 1AT
PHW.ViolencePreventionUnit@wales.nhs.uk | 02920 338450

Uned Atal Trais
Violence Prevention Unit